# CYNLLUNIAU MARCIO SAFON UWCH

## HAF 2024

## CYMRAEG AIL IAITH - UNED 6
## SAFON UWCH
## 1020U60-1

© WJEC CBAC Cyf.

**Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn**

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu’r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

© WJEC CBAC Cyf.

**TAG CYMRAEG AIL IAITH – SAFON UWCH**

**UNED 6 - DEFNYDDIO IAITH A'R STORI FER**

**CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2024**

## Adran A – Defnyddio Iaith

### Cwestiwn1

(i) Mae'r hysbyseb isod wedi ymddangos ar hysbysfwrdd ystafell gyffredin y chweched dosbarth yn yr ysgol.
Yn dilyn ymweliad â glan y môr yn ddiweddar rydych wedi penderfynu ymuno â'r gwirfoddolwyr sy'n awyddus i glirio'r sbwriel sy'n difetha ein traethau.
Ysgrifennwch ebost at Cadw Cymru'n Daclus yn cynnig eich help ac yn dweud pam rydych chi'n awyddus i wirfoddoli. (Tua **150** o eiriau) **[20]**

Oeddech chi'n gwybod?

Mae sbwriel ar ein traethau wedi dyblu yn yr ugain mlynedd diwethaf.
Y broblem fwyaf ydy plastig o bob math.

Os ydych chi'n berson cyfrifol sy'n poeni am yr amgylchedd mae cyfle i chi ymuno â ni i glirio'r sbwriel sy'n achosi llygredd ac yn difetha'n traethau.

Ar 9 – 11 Awst 2024 bydd Penwythnos Glanhau'r Traeth ac rydym yn awyddus i ddenu miloedd o wirfoddolwyr i ddod at ei gilydd i glirio sbwriel o rai o draethau ein gwlad.

Ewch i www.penglantr.cymru am fwy o wybodaeth ac i gael rhestr o'r traethau sy'n rhan o'r ymgyrch.
I wirfoddoli anfonwch e bost at info@cadwcymrundaclus.cymru yn rhoi eich manylion cyswllt gan ddweud sut a pham rydych chi am helpu ac yn y blaen.







© WJEC CBAC Cyf.

Wrth ysgrifennu'r ebost **dylech chi**:

- rhoi eich manylion personol
- dweud ble weloch chi'r hysbyseb
- ymateb i'r broblem llygredd sy'n difetha'n traethau
- rhoi eich barn am y syniad o gael Penwythnos Glanhau'r Traeth
- dweud ble hoffech chi wirfoddoli a gyda phwy
- esbonio sut allwch chi helpu a pham rydych chi'n awyddus i wneud hynny.



© WJEC CBAC Cyf.

| MARC | AA3 | |
|---|---|---|
| **16-20** | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb i bob agwedd o'r cwestiwn yn gydlynol ac yn effeithiol gan ddangos gwreiddioldeb<br>• adnabod y blaenoriaethau arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth<br>• trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sy'n dangos ymwybyddiaeth o'r pwrpas a'r gynulleidfa ac yn creu effaith | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• defnyddio cywair cwbl addas i'r dasg a'r gynulleidfa<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• arddangos gafael sicr iawn ar ramadeg, treigladau a berfau |
| **13-15** | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb i'r rhan fwyaf o elfennau'r cwestiwn yn hyderus gan ddangos gwreiddioldeb<br>• adnabod y rhan fwyaf o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth<br>• trefnu ac addasu'r gwaith mewn modd sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod eang o eirfa'n gywir<br>• defnyddio cywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa'n gyson<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• arddangos gafael sicr ar ramadeg, treigladau a berfau. |
| **10-12** | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb i brif elfennau'r cwestiwn yn effeithiol gan ddangos peth gwreiddioldeb<br>• adnabod nifer o'r blaenoriaethau a'r manylion arwyddocaol wrth ddadansoddi, gwerthuso ac ymateb i'r wybodaeth<br>• trefnu ymateb sydd yn briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• arddangos ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa<br>• arddangos gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan tra mae'r mwyafrif o'r treigladau a'r berfau'n gywir<br>• defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig |
| **7-9** | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb yn syml i rai o elfennau'r cwestiwn<br>• adnabod rhai o'r blaenoriaethau wrth ymateb i'r wybodaeth<br>• gwneud peth ymgais i drefnu ymateb sy'n briodol i'r pwrpas a'r gynulleidfa | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio peth ystod o eirfa<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair priodol i'r dasg a'r gynulleidfa<br>• arddangos gafael eitha anghyson ar ramadeg er bod y treigladau a'r berfau'n eithaf cywir<br>• amrywio'r brawddegau rhywfaint |
| **4-6** | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• ymateb yn fyr i nifer gyfyngedig o elfennau'r cwestiwn<br>• ymateb i'r manylion symlaf yn unig<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o'r pwrpas | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a brawddegau<br>• arddangos gafael gyfyngedig ar ramadeg, treigladau a berfau |
| **0-3** | Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | |


© WJEC CBAC Cyf.

(ii) Mae'r Gymdeithas Hanes rydych chi'n aelod ohoni'n awyddus i anfon y llythyr isod i ddiolch i reolwr a staff Plas Uchaf am yr ymweliad diddorol gawson nhw â'r hen blas yn ddiweddar. Cyn anfon y llythyr bydd rhaid i chi lenwi'r bylchau 1 – 10 gyda'r geiriau cywir. Mae'r geiriau cywir yn y blwch ar waelod y dudalen **[10]**

**Ysgrifennwch y geiriau cywir wedi'u rhifo 1 - 10 yn eich llyfryn ateb. Peidiwch â chopïo'r llythyr.**

| **Cynllun Marcio**<br>**1 marc am bob ateb cywir = 10 marc** |
|---|
| 1. **atoch chi / atoch**<br>2. **gawson ni / gawson / gawsom / gawsom ni**<br>3. **â'r**<br>4. **Cafodd**<br>5. **ymweliad**<br>6. **traddodiadol**<br>7. **cinio**<br>8. **Roedd**<br>9. **Mai / taw**<br>10. **Wnewch** |

**Rhaid cael y geiriau cywir yn y drefn gywir.**



© WJEC CBAC Cyf.

**Adran B – Y Stori Fer**

| MARC | AA2 (i) (ii) (iii) | MARC | AA3 (i) (ii) (iii) |
|---|---|---|---|
| **(i) (ii)<br>8-10<br>(iii)<br>24-30** | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth eang o’r testun a dealltwriaeth manwl-gywir o’r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i’r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol, treiddgar ac arddangos aeddfedrwydd barn<br>• defnyddio dyfyniadau’n gywir ac yn bwrpasol<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o’r pwnc yn ôl yr angen** | **(i) (ii)<br>5<br>(iii)<br>8-10** | **BAND 1**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn aeddfed, yn glir ac yn gywir<br>• saernïo’u gwaith yn fanwl a gofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio’r arddull yn sensitif yn ôl yr angen<br>• arddangos amrywiaeth eang iawn o adnoddau iaith a gafael gadarn ar ramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)<br>7<br>(iii)<br>21-23** | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth fanwl o’r testun a’r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i’r testun yn ddeallus ac yn ddychmygus gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol<br>• datblygu ac ehangu syniadau’n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau’n gywir a pherthnasol<br>• **croesgyfeirio rhwng gwahanol agweddau o’r pwnc yn ôl yr angen** | **(i) (ii)<br>4<br>(iii)<br>7** | **BAND 2**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn ddeallus, yn glir ac yn gywir<br>• cynllunio’u gwaith yn fanwl<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio’r arddull yn briodol yn ôl yr angen<br>• arddangos amrywiaeth helaeth o adnoddau iaith a gafael dda iawn ar ramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)<br>6<br>(iii)<br>15-20** | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth helaeth o’r testun a’r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i’r testun gan gyflwyno dadleuon gwreiddiol gan amlaf<br>• datblygu ac ehangu syniadau’n drefnus<br>• defnyddio dyfyniadau perthnasol<br>• **croesgyfeirio rhwng rhai agweddau o’r pwnc yn ôl yr angen** | **(i) (ii)<br>3<br>(iii)<br>5-6** | **BAND 3**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn glir ac yn gywir<br>• saernïo’u gwaith yn ofalus<br>• rhoi sylw gofalus i gywair drwy amrywio’r arddull<br>• arddangos amrywiaeth o adnoddau iaith a gafael dda ar ramadeg a chystrawen |



© WJEC CBAC Cyf.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **(i) (ii)<br>5<br>(iii)<br>12-14** | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos gwybodaeth briodol o'r testun a'r cysyniadau<br>• llunio ymateb personol i'r testun gan gyflwyno dadleuon digonol<br>• datblygu ac ehangu syniadau'n drefnus ar adegau'n unig<br>• dyfynnu o'r testun yn achlysurol<br>• **cyfeirio at rai o wahanol agweddau'r pwnc** | **(i) (ii)<br>2<br>(iii)<br>4** | **BAND 4**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn eitha chlir a chywir<br>• cynllunio'u gwaith yn eitha gofalus<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o drefn, dilyniant a chywair wrth gyflwyno'u gwaith<br>• arddangos gafael dda ar adnoddau iaith, gramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)<br>4<br>(iii)<br>7-11** | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• arddangos peth gwybodaeth o gynnwys y testun<br>• llunio ymateb personol gan gyflwyno dadleuon yn syml<br>• datblygu syniadau'n weddol drefnus ar adegau<br>• dyfynnu o'r testun yn achlysurol<br>• **diffyg cyfeirio at wahanol agweddau'r pwnc** | **(i) (ii)<br>1<br>(iii)<br>2-3** | **BAND 5**<br>**Bydd ymgeiswyr yn:**<br>• mynegi eu hunain yn eitha clir a chywir ar y cyfan<br>• cynllunio'u gwaith yn ofalus ar adegau'n unig<br>• arddangos peth ymwybyddiaeth o gywair wrth gyflwyno'u gwaith<br>• defnyddio ystod gyfyngedig o eirfa a phatrymau addas a pheth gafael ar ramadeg a chystrawen |
| **(i) (ii)<br>0-3<br>(iii)<br>0-6** | **BAND 6**<br>• Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig. | **(i) (ii)<br>0<br>(iii)<br>1** | **BAND 6**<br>• Bydd yr ymgeiswyr yn arddangos rhai nodweddion cadarnhaol ar adegau yn unig |



© WJEC CBAC Cyf.

Cwestiynau penodol y Stori fer

(i) Yn y darn o'r stori fer *Angladd yn y Wlad,* ar dudalen 5, mae'n amlwg bod yr awdur eisiau i ni'r darllenydd gydymdeimlo â'r Adroddwraig. Ydych chi'n cytuno neu ydych chi'n meddwl bod Ioan Kidd yn teimlo bod Mr Tremeer yn haeddu ein cydymdeimlad hefyd?
**Ysgrifennwch tua 100 o eiriau** yn rhoi eich ymateb i'r ffordd y mae'r ddau gymeriad yn cael eu portreadu **yn y darn ar dudalen 5**. **[15]**

Gallech chi gyfeirio at:

- y ffaith bod y stori yn y person cyntaf o bersbectif yr Adroddwraig
- y ffaith nad ydy hi'n feirniadol o Mr Tremeer mewn ffordd uniongyrchol
- y gwrthgyferbyniad rhwng bywydau'r bobl ddu a'r bobl wyn
- y diffyg cyfathrebu dyddiol yn swyddfa'r heddlu
- y rhwystredigaeth y mae'r ddau gymeriad yn ei deimlo
- eu gofal dros eu plant
- y pwysau sy ar Mr Tremeer oherwydd ei swydd
- ymateb yr Adroddwraig a Mr Tremeer ar ddiwedd y darn.

| **Gellir disgwyl y math yma o gynnwys:** | |
|---|---|
| **Ein cydymdeimlad â'r Adroddwraig** | **Ein cydymdeimlad â Mr Tremeer** |
| 1. Adroddir y stori'n y person 1af - o bersbectif yr Adroddwraig<br>2. Rydym yn cydymdeimlo oherwydd iddi golli ei meibion<br>3. Gwyddom ei bod yn 'poeni'n ofnadwy' amdanynt<br>4. Mae pwyslais aruthrol ar yr amser mae hi'n ei dreulio'n 'aros' am newyddion.<br>5. Mae hi'n ceisio portreadu Mr Tremeer a'i deulu mewn ffordd bositif.<br>6. Mae'r berthynas rhyngddynt yn bwysig iddi<br>7. Mae hi'n cydnabod ei bwysigrwydd yn yr Heddlu.<br>8. Mae hi'n berson gweithgar ac yn gyffredinol, mae ei bywyd yn anodd<br>9. Ym mharagraff olaf y darn mae gosodiadau megis 'Llamodd fy nghalon'; 'a'm calon yn cuo'n fy mhen'; 'eu hwynebau glân yn erbyn fy nghorff' yn sicr yn ennyn ein cydymdeimlad<br>10. Dydy'r awdur ddim yn ei phortreadu fel person hunandosturiol. | 1. Er yr holl broblemau mae'r Adroddwraig yn parhau i weithio i Mr Tremeer ac wedi gwneud hynny am bymtheng mlynedd.<br>2. Mae e'n ddyn sy'n gofalu am ei deulu.<br>3. Mae'r Adroddwraig yn cyfeirio ato fe a'i deulu mewn ffordd positif<br>4. Mae e'n ddyn pwysig sydd â swydd gyfrifol gyda'r Heddlu.<br>5. Mae e'n teimlo nad ydy e'n gallu helpu'r Adroddwraig oherwydd ei sefyllfa<br>6. Cawn yr argraff ei fod yn ymwybodol y dylai helpu'r Adroddwraig oherwydd y berthynas sydd rhyngddynt<br>7. Mae e'n 'edrych yn syn' a hyn yn gwneud i ni gydymdeimlo ag e oherwydd mae'r sefyllfa'n dristwch ac yn embaras llwyr iddo.<br>8. Mae e'n siarad mewn 'llais digyffro' ac mae hyn yn gwneud i ni feddwl ei fod yn ceisio cuddio ei deimladau. |



© WJEC CBAC Cyf.

(ii) Yn y darn ar dudalen 5 mae'r awdur yn defnyddio technegau amlwg fel:

- **brawddegau byr**
- **gwrthgyferbyniad**
- **ailadrodd**

Rhowch enghreifftiau o'r **technegau uchod** (o'r darn ar dudalen 5 yn unig) yn dweud sut maen nhw'n helpu'r awdur i gyfleu tristwch sefyllfa'r Adroddwraig a'r ffordd mae hyn yn effeithio ar ei pherthynas â Mr Tremeer.
**(Ysgrifennwch tua 100 o eiriau)** **[15]**

| **Disgwylir i'r ymgeisydd ddewis a chyfeirio at enghreifftiau megis:** | |
|---|---|
| Y Dechneg | Effaith ar lwyddiant y darn |
| **brawddegau byr**<br>Yn ei storïau byrion mae Ioan Kidd yn hoff iawn o ddefnyddio brawddegau byr i greu awyrgylch, tensiwn neu gyffro. Mae defnydd o dechneg fel hyn hefyd yn pwysleisio symlder person, sefyllfa neu ddigwyddiad.<br>e.e. | |
| Pymtheg mlynedd o wasanaeth.<br>Maen nhw'n deulu digon serchus.<br>Maen nhw'n gyflogwyr digon piwr.<br>Mae e'n ddyn pwysig iawn. | Mae Ioan Kidd yn ceisio cyfleu'r berthynas oedd wedi bodoli dros gyfnod o bymtheg mlynedd rhwng Mr Tremeer (a'i deulu) a'r Adroddwraig. Rydym yn teimlo tristwch y sefyllfa oherwydd bod y berthynas yn golygu rhywbeth arbennig i'r Adroddwraig er gwaethaf y gwahaniaethau amlwg oedd yn bodoli rhyngddynt. |
| Llamodd fy nghalon.<br>Atebais ddwywaith. | Yma mae'r awdur am i ni, y darllenwyr, deimlo tensiwn y sefyllfa wrth i'r Adroddwraig baratoi ei hun i dderbyn cefnogaeth Mr Tremeer ac hefyd efallai i'n paratoi at gyfer y tristwch a'r siom sydd i ddod. |
| Rwy'n poeni'n ofnadwy am fy meibion.<br>Doedd ganddo ddim rhagor o wybodaeth' | Dwy frawddeg fer sy'n cyfleu dau emosiwn hollol wahanol ond ar yr un pryd sy'n cyfleu'r tristwch ym mywyd yr Adroddwraig.<br>Mae hi'n drist oherwydd iddi golli ei meibion ac hefyd mae hi'n siomedig oherwydd diffyg cefnogaeth Mr Tremeer, dyn yr oedd hi wedi datblygu perthynas agos ag o dros gyfnod o bymtheg mlynedd. |
| 'Mae eu bywyd yn ddi-boen a'u byd i gyd yn wyn' | Mae'r frawddeg fer hon yn tynnu sylw at eiriau megis 'di-boen' a 'gwyn' gan gyfleu'r syniad o burdeb a heddwch sy'n bodoli ym mywyd Mr Tremeer i'w gymharu â'r tristwch, yr ofn a'r casineb sydd yn rhan annatod o fywyd yr Adroddwraig a'i phobl. |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **gwrthgyferbyniad**<br>e.e.<br>(i) 'Maen nhw'n deulu digon serchus. Maen nhw'n gyflogwyr digon piwr'. | <br><br>Rydym, fel darllenwyr, yn amheus o'r gair 'digon' (serchus/piwr) yn y ddwy frawddeg yma o eiddo'r Adroddwraig ar unwaith ond mae'r frawddeg nesaf 'Mae eu bywyd yn ddi-boen a'u byd i gyd yn wyn' mewn gwrthgyferbyniad â'r ganmoliaeth o'r teulu Tremeer ac yn cadarnhau ein amheuon. |
| (ii) Ydw, rwy'n dal i lanhau tŷ Mr Tremeer a gofalu am anghenion Peter, ei fab. | Mae'r ffaith bod yr Adroddwraig yn dweud 'Ydw ...' i gadarnhau'r ffaith ei bod yn dal i lanhau tŷ Mr Tremeer a gofalu am ei deulu yn awgrymu y dylai'r darllenydd fod mewn sioc o sylweddoli hyn. Mae'r dechneg o wrthgyferbynnu rhwng sefyllfa aruchel Mr Tremeer a bywyd anodd a difreintiedig yr Adroddwraig yn effeithiol ac yn tanlinellu'r tristwch a'r annhegwch oedd yn bodoli yn Ne Affrica yn ystod cyfnod Apartheid. |
| (iii) Mae e'n drydydd o ran pwysigrwydd yn y swyddfa honno' | Mae'r geiriau hyn hefyd yn tanlinellu gwaith a bywyd distad a thrist yr Adroddwraig sy'n dal i lanhau tŷ Mr Tremeer a gofalu am anghenion Peter, ei fab mewn gwrthgyferbyniad â'r statws a'r urddas sy'n perthyn i Mr Tremeer. |
| (iv) Ymateb yr Adroddwraig ac ymateb Mr Tremeer ar ddiwedd y darn | Ar ddiwedd y darn mae gwrthgyferbyniad amlwg rhwng y ffordd mae'r Adroddwraig yn ymateb i'r ffordd y mae Mr Tremeer yn ymateb i'r newyddion am y meibion.<br>Mae'r Adroddwraig yn dweud 'Llamodd fy nghalon. Atebais ddwywaith'. Hefyd mae hi'n cyfaddef iddi 'ruthro tuag ato' tra mae Mr Tremeer yn siarad 'yn ei lais digyffro' ac yn cyfaddef nad oes 'ganddo fe ddim rhagor o wybodaeth'.<br>Mae hyn yn gwrthgyferbynnu ac yn tanlinellu faint roedd tristwch a pryder colli'r meibion yn ei olygu i un yn fwy na'r llall. |



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **Ailadrodd** | Mewn darn o ryddiaith neu farddoniaeth mae'r dechneg o ailadrodd cynnil yn un pwerus iawn. Yn y darn hwn mae'n cyfleu tyndra ac emosiwn hefyd gan bwysleisio neges. Mae'n hoelio'r syniadau ym meddwl y darllenydd ac yn creu naws trist ac anobeithiol bron. |
| e.e.<br>'neb yno (Swyddfa'r Heddlu) byth yn dweud gair.<br>'ond ni ddywedodd (Mr Tremeer) yr un gair'<br>'Yna troes heb ofyn rhagor.' | Mae peth o'r tristwch mae'r Adroddwraig yn ei deimlo ynglŷn â'r sefyllfa yn dod oherwydd y diffyg cyfathrebu rhwng yr Heddlu a'r mamau ac mae'r ailadrodd cynnil a gawn yn y darn yn tanlinellu hyn. Hefyd trwy ailadrodd daw'r siom wrth i'r Adroddwraig sylweddoli bod y berthynas rhyngddi a Mr Tremeer yn dadfeilio. |
| 'Pymtheng mlynedd o fagu mab rhywun arall'<br>'Ar ôl pymtheng mlynedd o wasanaeth ...' | Mae ailadrodd y gair pymtheng yn tanlinellu tristwch a siom yr Adroddwraig oherwydd ei bod yn disgwyl gwell triniaeth gan Mr Tremeer a hithau hefyd yn meddwl bod yn berthynas rhyngddynt yn gryfach ar ôl gymaint o flynyddoedd. |
| 'Mae e'n drydydd o ran pwysigrwydd yn y swyddfa hon. Mae e'n ddyn pwysig iawn' | Mae'r hyn yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng yr Adroddwraig a Mr Tremeer – ac hefyd y ffaith bod yr Adroddwraig yn cydnabod hyn. Fodd bynnag, roedd hi'n disgwyl i'r ffaith ei fod yn 'bwysig' ei helpu hi gael ei meibion yn ôl. Ond nid felly y bu. |
| Ailadrodd y syniad o 'aros' a bod yn amyneddgar.<br><br>'Bydda i'n aros ...' / '...ac aros gyda'r lleill'/ 'Arhosais am ddwy awr ...'/'Arhosa innau ar ganol y llawr ...' | Mae ailadrodd y ffaith bod yr Adroddwraig (a'r mamau eraill) yn treulio cymaint o amser yn aros yn pwysleisio eu hamynedd a'u dyhead i gael y meibion yn ôl ond hefyd mae'n tanlinellu'r ffordd y mae'r Heddlu (gan gynnwys Mr Tremeer) yn trin y bobl ddu ac yn eu hystyried yn israddol a'r driniaeth honno'n awgrymu nad oedd eu problemau'n bwysig. |



© WJEC CBAC Cyf.

(iii) Prif thema'r darn ar dudalen 5 ydy effaith diffyg cyfathrebu ar berthynas yr Adroddwraid â Mr Tremeer. Manylwch ar y thema **diffyg cyfathrebu a'r ffordd y mae'n dinistrio perthynas rhwng unigolion** trwy gyfeirio at unrhyw lenyddiaeth a ddarllenwyd neu lunyddiaeth a wyliwyd gennych sy'n ymdrin â'r un thema **a'u cysylltu gyda'r darn ar dudalen 5**.
(**Ysgrifennwch tua 300 o eiriau**. Cwestiwn synoptig). **[40]**

Bydda i'n mynd i swyddfa'r heddlu bob dydd cyn mynd i'r gwaith, ond does neb yno byth yn dweud gair. Bydda i'n aros gyda'r mamau eraill am ryw ddwyawr cyn mynd i dŷ Mr Tremeer, y plisman. Ydw, rwy'n dal i lanhau tŷ Mr Tremeer a gofalu am anghenion Peter, ei fab. Pymtheng mlynedd o wasanaeth. Pymtheng mlynedd o fagu mab rhywun arall er bod hwnnw bellach yn ddyn. Mae Peter yntau'n dad erbyn hyn. Mae e'n briod ac mae gyda fe wraig a babi bach. Mab naw mis oed a hwnnw'n tynnu ar ôl ei dad. Maen nhw'n deulu digon serchus. Maen nhw'n gyflogwyr digon piwr. Mae eu bywyd yn ddi-boen a'u byd i gyd yn wyn.

Y bore 'ma, yn ôl fy arfer, daliais y bws i swyddfa'r heddlu ac aros yno gyda'r lleill. Ond yn ôl eu harfer ni ddywedodd y plismyn ddim. Arhosais am ddwyawr, ac wrth imi adael i fynd i'r gwaith gwelais Mr Tremeer yn cyrraedd. Mae o'n drydydd o ran pwysigrwydd yn y swyddfa honno. Mae e'n ddyn pwysig iawn. Edrychodd yn syn arna i ond ni ddywedodd yr un gair.

Rwy'n poeni'n ofnadwy am fy meibion.

Yn hwyr y prynhawn 'ma dychwelodd Mr Tremeer i'r tŷ. Roeddwn i ar fin mynd tua thre. Gofynnodd beth oedd enwau fy meibion. Llamodd fy nghalon. Atebais ddwywaith. Yna troes heb ofyn rhagor ac aeth i'w swyddfa ym mhen draw'r cyntedd. Arhosais innau ar ganol llawr y gegin a'm calon yn curo yn fy mhen. Eisoes gallwn ddychmygu fy meibion yn rhedeg tuag ata i. Gallwn deimlo'u hwynebau glân yn gwasgu yn erbyn fy nghorff. Ar ôl pymtheng mlynedd o wasanaeth i Mr Tremeer, hon yn anad dim, fe gredwn, oedd ei weithred fwya cymwynasgar. Pan ddaeth yn ôl i'r gegin rhuthrais tuag ato. Dywedodd yn ei lais digyffro fod fy meibion yn y ddalfa yn agos i fan hyn a bod y tri wedi cael eu harestio o dan bwerau arbennig y wladwriaeth. Doedd ganddo fe ddim rhagor o wybodaeth.



© WJEC CBAC Cyf.

**Thema:**
**Diffyg cyfathrebu** sy'n difetha perthynas unigolion a'i gilydd

Hefyd: Siwan
Yr Ymwelydd
Solomon a Gaenor
Beth os?

## Angladd yn y Wlad
Ioan Kidd

Mae'r Adroddwraig yn 'mynd i swyddfa'r heddlu '**bob dydd**' ond 'does neb byth yn dweud gair'. Mae hyn yn arwain at deimlad o siom a rhwystredigaeth ar ran yr Adroddwraig a'r mamau eraill. Mae hi'n cydnabod bod Mr Tremeer a'i deulu'n 'ddigon serchus' ac yn 'gyflogwyr digon piwr' ac hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Mr Tremeer yn waith gyda'r heddlu. Er hyn mae'r diffyg cyfathrebu'n ei gwneud hi'n drist ac gwneud iddi gwestiynu 'r berthynas fu rhyngddynt dros 15 mlynedd.
Mae ei 'lais digyffro' yn awgrymu nad ydy'r sefyllfa'n cynhyrfu fawr arno. Mae e'n dweud nad oedd ganddo 'rhagor o wybodaeth' ac mae hyn yn siomi ac yn tristàu'r Adroddwraig oherwydd nad oedd eu perthynas yn bwysig iddo..

## Trŵ Lyf
Marlyn Samuel

Dydy Eifion Williams ddim yn onest gyda Gwen ynglyn â'u perthynas. Mae e'n ei defnyddio hi ar gyfer copïo gwaith cartref ac yn gadael iddi gymryd y bai i gyd. Yn debyg i agwedd Mr Tremeer dydy'r berthynas ddim yn bwysig iddo. Mae'r diffyg cyfathrebu'n gwneud Gwen yn drist ac mae hi'n cael ei siomi pan mae e'n gadael iddi gymryd y bai am y copïo. Mae perygl hefyd y bydd y berthynas rhyngddi hi a'i ffrind yn cael ei ddinistrio yn sgil hyn. Doedd gan Mai 'fawr o fynadd' gyda Gwen ac roedd hi'n onest iawn yn dweud 'Iwsio chdi mae o Gwen'.

## Crash
Sera Moore Williams

Rydym yn cael yr argraff bod Els a Wes yn wahanol i Eifion a Gwen yn *Trw Lyf* a'i bod yn cyfathrebu'n dda gyda'i gilydd. Realiti'r sefyllfa ydy mai dweud yr hyn mae hi'n meddwl fydd yn plesio Wes mae hi gan amlaf. Mae'r berthynas yn cael ei difetha wrth i Els ddechrau dweud celwyddau wrth Wes ac ar ddiwedd y ddrama gwelwn y berthynas yn cael ei difetha'n llwyr.
Cawn yn hatgoffa o sefyllfa Mr Tremeer a'i ymateb i'r Adroddwraig pan y daw i'r amlwg nad ydy Wes oherwydd ei amgylchiadau, yn gallu cyfathreb ei deimladau mewn ffordd agored a gonest.

## Patagonia
Y ffilm

Yn debyg i Non yn *stori Mihangel Morgan* mae gan Gwen broblemau yn ei bywyd priodasol sydd yn y diwedd yn debygol o ddifetha'r berthynas. Hefyd mae gwahaniaethau amlwg rhwng Gwen a'i gŵr, Rhys. Nid yw hi'n gallu cael plant ac yn anffodus oherwydd diffyg cyfathrebu rhyngddynt dydy hi ddim yn rhannu'r newyddion gyda Rhys. Yn hytrach mae hi'n cael affêr gyda Mateo ac mae hyn yn achos siom a thristwch i Rhys. Mae hyn yn ein hatgoffa o'r diffyg cyfathrebu a'r gwahaniaethau rhwng yr Adroddwraig a Mr Tremeer ac effaith hyn i gyd ar eu bywyd

## Pwy fyth a fyddai'n fetel?
Mihangel Morgan

Ar ddiwedd y stori fer *Mihangel Moregan* rydym yn sylweddoli bod Jac wedi rhaglennu KerfluskerX i ddweud wrth Non sut roedd e'n teimlo tuag ati hi. Mae e'n dweud 'Mae'n-bryd-i-ti-wrando' ond erbyn hyn mae'n rhy hwyr i ddechrau cyfathreb ac mae eu perthynas, ac efallai bywyd Non, wedi'u dinistrio'n llwyr. Mae hyn yn debyg iawn i waith *Ioan Kidd* gan fod anallu Mr Tremeer i gyfathrebu â'r Adroddwraig yn golygu bod bywyd babi Peter Tremeer mewn perygl ac mae perthynas Mr Tremeer a'r adroddwraig wedi'i difetha am byth.



© WJEC CBAC Cyf.